JEREMY MILES **AC/AM**
**Y Cwnsler Cyffredinol/Counsel General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/00048/18

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Ty Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddCLA@assembly.wales

12 Mehefin 2018

Annwyl Mick,

**Gweithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Mai yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am nodi prosiect ar gyfer Cymru yn unig i'w gynnwys yn 13eg rhaglen Comisiwn y Gyfraith.

Mae prosiect ar gyfer adolygu'r gyfraith sy'n berthnasol i'n Tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru, a gwneud argymhellion ar gyfer ei diwygio, wedi ei gytuno gan Brif Weinidog Cymru a'r Comisiynwyr.

Fel y gwyddoch, mae rheolau a gweithdrefnau presennol y gwahanol dribiwnlysoedd datganoledig sydd ar waith yng Nghymru yn gymhleth ac yn anghyson, gan eu bod wedi datblygu fesul dipyn o dan ystod eang o wahanol ddeddfwriaeth. Cafodd y rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth hon ei datblygu cyn i dribiwnlysoedd gael eu hystyried gyda'i gilydd fel swyddogaeth farnwrol.

O siarad yn gyffredinol, rhagwelir y byddai Bil Tribiwnlysoedd (Cymru) yn gallu creu cysondeb o fewn proses y tribiwnlysoedd yng Nghymru drwy greu system unedig ar eu cyfer, yn debyg i'r system sy'n bodoli ar gyfer Cymru a Lloegr o dan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007.

Er bod Deddf Cymru 2017 eisoes wedi creu rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, sy'n darparu rhywfaint o gysondeb o fewn tribiwnlysoedd Cymru, mae pob tribiwnlys yn dal i gael ei lywodraethu gan y ddeddfwriaeth a'i sefydlodd, sydd bellach wedi dyddio mewn llawer o achosion. Mae rôl arweinyddiaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn cael ei llesteirio gan y sail ddeddfwriaethol gymhleth hon, nad yw'n ymdrin â'i rôl o gwbl.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSCounselGeneral@gov.wales
YP.CwnslerCyffredinol@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn fras, gallai manteision system tribiwnlysoedd unedig gynnwys:

- Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru – rôl sy'n goruchwylio'r holl dribiwnlysoedd
- Un broses ar gyfer penodi a diswyddo
- Un broses ar gyfer penodi Llywyddion a'r rheini sy'n cyflawni rôl dirprwy
- Pŵer i wneud rheolau a'u safoni
- Un broses ar gyfer apelio
- Proses glir ar gyfer ymdrin â chwynion
- Creu system sy'n cefnogi annibyniaeth farnwrol

Byddwch yn gwybod yn iawn am yr anawsterau ymarferol y mae'r statud gymhleth yn eu hachosi wrth fynd ati i weithredu Tribiwnlysoedd datganoledig Cymru mewn modd priodol ac effeithiol, ac rwy'n gobeithio y byddwch yn croesawu'r prosiect hwn, a allai gynnig manteision sylweddol a fyddai'n helpu i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wneud y gyfraith yn fwy hygyrch yn y maes hwn.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AC**
Y Cwnsler Cyffredinol
Counsel General